Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Polisi Chwythu'r Chwiban
# Whistleblowing Policy.

**Polisi Chwythu'r Chwiban**
**Whistleblowing Policy.**

*Os hoffech dderbyn gohebiaeth mewn perthynas â'ch cyflogaeth yn Gymraeg, cysylltwch â'ch Swyddog AD dynodedig.*

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Diffiniwyd Chwythu'r Chwiban fel a ganlyn: 'datgeliad gan weithiwr neu weithiwr proffesiynol o wybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â pherygl, twyll neu ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol arall sy'n gysylltiedig â'r gweithle, boed hynny gan y gweithiwr neu ei gyd-weithwyr'

(Canllawiau Pryder Cyhoeddus yn y Gwaith 1997).

1.2 Darperir diogelwch statudol i weithwyr sy'n chwythu'r chwiban o dan Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 ("PIDA"). Mae'r PIDA yn amddiffyn gweithwyr rhag erledigaeth os ydynt yn gwneud datgeliad gwarchodedig o fewn ystyr y PIDA ac yn lleisio pryderon am ymddygiad neu ymarfer yn yr ysgol sydd o bosib yn anghyfreithlon, yn llwgr, yn amhriodol, yn anniogel neu'n anfoesegol neu sy'n gyfystyr â chamymddwyn.

1.3 Gall fod gan weithwyr bryderon nad ydynt wedi'u cynrychioli dan y diffiniad uchod, y gellir eu codi'n anffurfiol gyda'r rheolwr/uwch athro priodol neu drwy ddefnyddio'r Weithdrefn Gwyno ar gyfer Staff Ysgol neu'r Polisi Aflonyddu yn y Gwaith ar gyfer Staff mewn Ysgolion, fel sy'n briodol i natur y gŵyn.

1.4 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff yr ysgol gan gynnwys staff llawn a rhan amser, staff achlysurol, dros dro neu ddirprwy ac i unigolion sy'n gwneud profiad gwaith yn yr ysgol.

## 2. NODAU A CHWMPAS Y POLISI

2.1 Mae'r corff llywodraethu wedi ymrwymo i safonau uchel ym mhob agwedd ar yr ysgol a bydd yn trin chwythu'r chwiban fel mater difrifol. Yn unol ag ymrwymiad y corff llywodraethu i fod yn agored, yn gywir ac yn atebol, mae aelodau staff yn cael eu hannog i adrodd am bryderon a fydd yn cael eu cymryd o ddifrif, yr ymchwilir iddynt ac y cymerir camau priodol mewn ymateb iddynt.

2.2 Nod y polisi hwn yw:

- rhoi hyder i aelodau staff ynghylch codi pryderon am ymddygiad neu ymarfer sydd o bosib yn anghyfreithlon, yn llwgr, yn amhriodol, yn anniogel neu'n anfoesegol neu sy'n gyfystyr â chamymddwyn neu sy'n anghyson â safonau a pholisïau ysgolion fel eu bod yn cael eu hannog i weithredu ar y pryderon hynny
- darparu llwybrau i aelodau staff i godi pryderon
- sicrhau bod aelodau staff yn cael ymateb i'r pryderon y maent wedi'u codi ac adborth ar unrhyw gamau a gymerwyd
- cynnig sicrwydd bod aelodau staff yn cael eu diogelu rhag dial neu erledigaeth am gamau chwythu'r chwiban a wneir mewn ffydd dda ac o fewn ystyr y PIDA.

2.3 Mae'r polisi hwn yn cwmpasu chwythu'r chwiban sy'n ymwneud â'r canlynol:

- ymddygiad anghyfreithlon
- camweinyddiad cyfiawnder wrth gynnal prosesau statudol neu brosesau eraill
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaeth statudol neu gyfreithiol
- camweinyddu posib, twyll, llygru neu gamymddwyn
- materion iechyd a diogelwch gan gynnwys risgiau i'r cyhoedd yn ogystal â risgiau i ddisgyblion ac aelodau staff
- niwed i'r amgylchedd
- defnydd amhriodol neu anawdurdodedig o arian cyhoeddus neu gronfeydd eraill
- torri rheoliadau neu bolisïau ariannol
- cam-drin rhywiol, corfforol neu emosiynol o ddisgyblion neu aelodau o staff
- unrhyw ymgais i atal datgelu unrhyw un o'r materion a restrir.

2.4 Mae'r PIDA yn nodi hawliau a rhwymedigaethau statudol llawn aelodau o staff sy'n dymuno chwythu'r chwiban.

## 3. DIOGELU RHAG DIAL, AFLONYDDU, AC ERLEDIGAETH

3.1 Ni fydd y corff llywodraethu yn goddef aflonyddu nac erledigaeth aelodau o staff pan fydd materion yn cael eu codi yn unol â'r darpariaethau PIDA. Ymdrinnir ag unrhyw aelod o staff sy'n erlid neu'n aflonyddu ar aelod o staff o ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi codi pryder yn unol â'r polisi chwythu'r chwiban dan weithdrefnau disgyblu staff y corff llywodraethu.

3.2 O dan y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd (PIDA) byddai'n annheg fel mater o drefn i ddiswyddo neu wneud unrhyw aelod o staff yn ddi-waith oherwydd iddo wneud datgeliad gwarchodedig; a byddai'n anghyfreithlon gwneud iddo ddioddef unrhyw niwed arall, fel diraddiad neu ddirwy.

## 4. CYFRINACHEDD

4.1 Mae'r corff llywodraethu yn cydnabod y gall aelodau o staff fod eisiau mynegi pryderon yn gyfrinachol a bydd yn gwneud ei orau glas i warchod hunaniaeth aelodau'r staff sy'n mynegi pryder ac nad ydynt am i'w henwau gael eu datgelu.

4.2 Fodd bynnag gallai ymchwiliad i'r pryder ddatgelu ffynhonnell yr wybodaeth; ac efallai y bydd angen datganiadau gan yr aelod o staff fel rhan o'r dystiolaeth, a byddai hyn yn cael ei weld gan yr holl bartïon sy'n ymwneud â'r achos. Os bydd yr archwiliad yn arwain at erlyniad mae'r chwythwr chwiban yn debygol o gael ei alw i roi tystiolaeth yn y llys.

## 5. HONIADAU DIENW

5.1 Lle bynnag y bo hynny'n bosib dylai staff roi eu henwau wrth honiadau - mae pryderon dienw'n llawer llai grymus. Er hynny, bydd honiadau dienw'n cael eu hystyried dan y weithdrefn chwythu chwiban hon, yn enwedig pryderon a fynegwyd am les plant. Mewn perthynas â phenderfynu a dylid gweithredu yn erbyn honiad ar sail dienw neu beidio, bydd y corff llywodraethu'n ystyried y ffactorau canlynol:

- difrifoldeb y mater a godwyd
- pa mor gredadwy yw'r pryder
- pa mor debygol yw hi y gellir cadarnhau'r honiad o ffynonellau y gellir eu priodoli, a chael gafael ar wybodaeth a ddarparwyd.

**6. HONIADAU ANWIR A MALEISUS/BLINDERUS**

Os yw aelod o staff yn gwneud honiad yn ddidwyll ond nid yw'n cael ei gadarnhau wedi ymchwilio ymhellach, dyna derfyn y mater ac ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Fodd bynnag, os bydd yr ymchwiliad yn dangos bod honiadau anwir yn rhai maleisus a/neu flinderus neu wedi eu gwneud gyda'r bwriad o elwa'n bersonol yna bydd y corff llywodraethu'n ystyried cymryd camau disgyblu yn erbyn yr aelod staff.

**7. HONIADAU'N YMWNEUD Â MATERION AMDDIFFYN PLANT**

7.1 Os bydd aelod o staff yn mynegi pryder mewn perthynas â mater amddiffyn plant, dylai'r pennaeth (neu gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r pryder am y pennaeth) ymgynghori ar frys â swyddog yr AALl a ddynodwyd i arwain ar faterion amddiffyn plant (a elwir yn "Swyddog Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed") ar 01639 763363 neu 07979932216) fel y gellir cychwyn ar y camau ar gyfer ymdrin â chyhuddiadau o'r fath dan weithdrefn ddisgyblu'r ysgol ar gyfer staff a'r gweithdrefnau amddiffyn plant a sefydlwyd gan Fwrdd Diogelu'r Bae Gorllewin.

7.2 Fodd bynnag, mewn perthynas â materion amddiffyn plant, mae gan yr aelod o staff y dewis o wneud cyfeiriad uniongyrchol i dîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol dros amddiffyn plant, (a elwir yn 'Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc") drwy ffonio 01639 686803 naill ai cyn mynegi ei bryder i'r corff llywodraethu neu lle bo'r pennaeth neu gadeirydd y llywodraethwyr yn methu â gwneud hynny ar ôl mynegi'r pryder a bod yr aelod o staff yn parhau i fod yn bryderus am y sefyllfa.

**8. GWEITHDREFN AR GYFER GWNEUD HONIAD CHWYTHU'R CHWIBAN**

8.1 Dylech fynegi eich pryder yn ysgrifenedig i'r pennaeth (neu gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r pryder yn ymwneud â'r pennaeth). (Y disgwyl yw mai'r person sy'n derbyn yr honiad fydd y swyddog ymchwilio. Fodd bynnag, mae'n ôl disgresiwn y person hwn, ar ôl gofyn am gyngor gan yr AALl, i ddirprwyo'r ymchwiliad i berson arall os yw'n teimlo ei fod yn briodol). Dylech nodi cefndir a hanes y pryder; gan roi enwau, dyddiadau a lleoedd lle bo modd, ac egluro'r rheswm dros eich pryderon. Os ydych yn teimlo na allwch fynegi'r mater yn ysgrifenedig (neu os yw'n mater o frys oherwydd amddiffyniad plant – gweler y manylion cyswllt ym mharagraff 7 uchod) gallwch barhau i fynegi'ch pryder ar lafar a dylech ffonio neu drefnu i gwrdd â'r person priodol. Gallwch hefyd ofyn i'ch undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol godi'r mater ar eich rhan neu i'ch cefnogi i fynegi'r pryder.

8.2 Os ydych yn teimlo na allwch fynegi'ch pryderon yn yr ysgol, mae gennych ddewis i fynegi'ch pryder i rywun y tu allan i'r ysgol o'r rhestr sefydliadau yn yr adran 'Gweithredu Ymhellach' yn y polisi hwn. Fodd bynnag, disgwylir fel arfer mai Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes neu Wasanaeth Archwilio Mewnol y cyngor yw'r rhai y byddech yn mynegi'ch pryderon iddynt y tu allan i'r ysgol.

8.3 Lle bo'r pryder yn gysylltiedig â mater amddiffyn plant, os nad ydych yn dymuno codi hyn drwy'r ysgol, mae'n rhaid i chi ymgynghori â'r swyddog AALl a ddynodwyd i arwain ar faterion amddiffyn plant ar 01639 763363 neu 07979932216 neu Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol ar 01639 686803. Os yw'r pryder yn golygu bod angen i'r Heddlu neu awdurdod statudol arall fod yn rhan ohono, bydd y broses chwythu chwiban yn cael ei hatal hyd nes y bydd yr awdurdodau statudol wedi cwblhau eu hymchwiliadau a chadarnhau ei bod yn briodol parhau â'r broses chwythu chwiban.

## 9. YMATEB I CHWYTHU'R CHWIBAN

9.1 Mewn perthynas â'r mater a godwyd, gall fod angen:

- ei ymchwilio'n fewnol yn yr ysgol
- ei gyflwyno i'r heddlu os yw'n ymwneud â gweithgaredd troseddol honedig
- ei gyflwyno i Wasanaeth Archwilio Mewnol y cyngor os yw'n gŵyn am reolaeth ariannol neu briodoldeb ariannol mewn ysgolion
- ei gyfeirio at y swyddog AALl a ddynodwyd i arwain ar faterion amddiffyn plant os oes pryder yn gysylltiedig ag amddiffyn plant neu, os nad yw'r person hwnnw ar gael, Wasanaeth Plant a Phobl Ifanc yr awdurdod lleol.

9.2 Yn ystod y cyfnod hwn nid yw pryderon/honiadau'n cael eu derbyn na'u gwrthod.

**10. AMSERLEN AR GYFER YMATEB**

Fel arfer, byddwch yn derbyn ymateb ysgrifenedig o fewn 5-10 niwrnod gwaith (ac eithrio pan fo honiadau dienw):

- yn cydnabod bod y pryder wedi'i dderbyn
- yn nodi sut y bwriedir delio â'r mater
- yn rhoi amcangyfrif o'r amser y bydd yn ei gymryd i ddarparu ymateb terfynol
- yn dweud a oes unrhyw ymholiadau cychwynnol wedi'u gwneud
- yn dweud a fydd ymchwiliadau eraill yn cael eu cynnal ac, os na fydd, y rhesymau dros beidio
- yn eich hysbysu am y cymorth sydd ar gael tra bod y materion yn cael eu hymchwilio, ac
- yn cynnal cyfrinachedd lle bynnag y bo hynny'n bosib, ond yn esbonio hefyd na fydd yn bosib i chi barhau i fod yn ddienw, efallai.

11. PROSES YR YMCHWILIAD

11.1 Bydd y swyddog ymchwilio yn:

- ymchwilio i'r honiad - yn chwilio am dystiolaeth ac yn cyfweld â thystion yn ôl yr angen.
- cynnal cyfrinachedd lle bynnag y bo hynny'n bosib ond bydd yn ymwybodol nad oes unrhyw warant y gall y chwythwr chwiban barhau i fod yn ddienw.
- os yw'n briodol, dod â'r mater i sylw'r sawl a benodwyd gan yr AALl sy'n ymdrin â chwynion am reolaeth ariannol ysgolion.
- os yw'n briodol, yn achos materion yn ymwneud ag ymddygiad troseddol, cyfeirio'r mater i sylw'r Heddlu.
- os yw'n briodol, ar gyfer pryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant, cyfeirio'r mater i sylw'r swyddog a benodwyd gan yr AALl i arwain ar faterion amddiffyn plant/rheolwr dynodedig amddiffyn plant gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol (a elwir yn "Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc"). Bydd y broses chwythu chwiban yn cael ei hatal hyd nes y bydd yr awdurdodau statudol wedi cwblhau eu hymchwiliadau a chadarnhau ei bod yn briodol parhau â'r broses chwythu chwiban.

11.2 Os oes angen i'r swyddog ymchwilio siarad â chi, mae gennych yr hawl i fod yng nghwmni cynrychiolydd undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol neu gyd-aelod o'r staff nad yw'n rhan o'r maes gwaith y mae'r pryder yn gysylltiedig ag ef.

11.3 Y nod yw cwblhau'r ymchwiliad o fewn 10-15 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb ysgrifenedig cychwynnol, er y gall yr ymholiad ymestyn y tu hwnt i'r amserlen hon.

**12. ADRODDIAD YR YMCHWILIAD**

12.1 Wedi cwblhau’r broses ymchwilio bydd y swyddog ymchwilio'n llunio adroddiad ysgrifenedig. Ni fydd yr adroddiad yn cynnwys enw’r chwythwr chwiban oni bai eich bod wedi datgan yn unswydd eich bod yn dymuno cael eich enwi.

12.2 Fel arfer bydd yr adroddiad yn nodi:

- sut dechreuodd yr ymchwiliad;
- y rhai a ddrwgdybir;
- eu swyddi a'u cyfrifoldebau;
- sut cynhaliwyd yr ymchwiliad;
- y ffeithiau a’r dystiolaeth a nodwyd
- crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion.

12.3 Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr, ynghyd ag un person annibynnol o'r tu allan i'r corff llywodraethu, e.e. yr AALl neu lywodraethwr o ysgol arall, yn derbyn yr adroddiad ysgrifenedig ac yn cyfarfod i benderfynu ar y camau sydd i'w cymryd. Os yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn gweithredu fel swyddog ymchwilio, bydd llywodraethwr o'r ysgol yn cymryd ei le (ac eithrio unrhyw lywodraethwyr a gyflogir yn yr ysgol). Os bydd yr argymhellion yn cynnwys camau disgyblu posib, cynhelir y cyfarfod penderfynu yn unol â gweithdrefn ddisgyblu'r ysgol. Dylai hyn ddigwydd fel arfer o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn adroddiad yr ymchwiliad.

12.4 Ar ôl cael gwybod am benderfyniad y panel, cewch eich hysbysu o'r canlyniad fel arfer o fewn 5 niwrnod gwaith (ac eithrio mewn perthynas â honiadau dienw), gan gynnwys y camau sydd i'w cymryd neu nad oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd a'r rhesymau dros hynny.

**13. MYND Â'R MATER YMHELLACH**

13.1 Os nad oes camau i'w cymryd a/neu os nad ydych yn fodlon gyda'r modd yr ymdriniwyd â'r mater, gallwch wneud cwyn dan weithdrefn gwynion y corff llywodraethu neu fynegi eich pryderon i sefydliadau eraill fel y rhestrir isod:

- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
- yr awdurdod lleol
- awdurdod esgobaethol (ar gyfer ysgolion yr Eglwys)
- cyfreithiwr
- yr Heddlu - am bryderon o ymddygiad troseddol
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg

13.2 Gall gweithiwr cyflogedig neu weithiwr hefyd gysylltu â chorff rhagnodedig, fel a amlinellir isod. Os hoffai gweithiwr ddatgelu camarfer y tu allan i'r cyngor, dylid

cymryd gofal i beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol. Gellir cael cyngor ar hawliau a chyfrifoldebau o bosib gan y parti yr eir â'r gŵyn iddo.

Mae 'corff rhagnodedig' yn gallu derbyn pryderon am sefydliadau yn ôl PIDA. Mae'r rhan fwyaf o reoleiddwyr yn gyrff rhagnodedig.

Gall gweithiwr cyflogedig neu weithiwr fynegi pryderon i gorff rhagnodedig, neu unrhyw gorff arall o'r fath, os yw'n berthnasol i'r corff hwnnw. Amddiffynnir datgeliadau o'r fath o dan gyfraith PIDA, os yw'r person sy'n datgelu camarfer yn bodloni'r meini prawf ar gyfer datgelu. Mae'n rhaid iddo hefyd gredu'n rhesymol fod y mater yn wir ac yn berthnasol i'r rheoleiddiwr. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gyrff rhagnodedig.

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- CThEM
- Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
- Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Comisiynydd Gwybodaeth
- Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Rheoleiddiwr Pensiynau
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Cymwysterau Cymru

Gellir ceisio cyngor annibynnol cyn mynegi pryder drwy gysylltu ag undeb llafur neu gorff rheoleiddio proffesiynol, neu drwy ddarllen yr arweiniad a roddir ganddynt. Gellir cael cyngor cyfrinachol am ddim gan yr elusen datgelu camarfer annibynnol, Protect (Pryder Cyhoeddus yn y Gwaith gynt):

Amddiffyn
The Green House
244 – 254 Cambridge Heath Road
Llundain
E2 9DA

: https://protect-advice.org.uk/contact-protect-advice-line/
: 020 3117 2520
https://protect-advice.org.uk

Cymeradwywyd y Polisi ar.........................................................................

Cadeirydd y Llywodraethwyr .........................................................................